(HCC 1054)

**Cofnodion o Eitem 3 ar agenda cyfarfod diweddaru**
**Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am drwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 3 Chwefror 2022**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Melody Chapman, John T Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

**Ymddiheuriadau:** Gareth Wynn Davies, Huw Davies a Rhys Davies.

3. **Rhan ffurfiol o’r cyfarfod diweddaru – Newidiadau arfaethedig i (DPAau) Cynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022 (Atodiad 1)**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Cig Coch.

Yn y cyfarfod ar 13 Ionawr 2022, cafodd y Bwrdd adolygiad 9-mis o berfformiad HCC yn ôl targedau, lle nodwyd rhai gwelliannau o ran cyflawni oddi ar yr adolygiad chwe-mis. Fodd bynnag, nodwyd nifer o DPAau a oedd yn annhebygol o gael eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2021 / 2022.

Cytunodd y Bwrdd y dylid diwygio'r DPAau yng Nghynllun Gweithredol 2021 / 2022 er mwyn adlewyrchu'r amodau y mae'r diwydiant yn gweithredu oddi tanynt ar hyn o bryd. Dywedodd y Bwrdd y dylid diwygio'r DPAau y nodwyd eu bod yn annhebygol o gael eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2021 / 2022 ac a oedd y tu allan i reolaeth uniongyrchol HCC i fod yn realistig ond yn heriol o hyd.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu’r Farchnad, y Rheolwr Cyfathrebu a’r Swyddog Gweithredol Cig Coch grynodeb o’u meysydd priodol a’r rhesymeg dros y newidiadau arfaethedig:

- Nodwyd bod y DPAau sy'n ymwneud â gwerthiannau allforio yn annhebygol o gael eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2021 / 2022 gan fod cyflenwad cyfyngedig a galw domestig cryf wedi effeithio'n sylweddol ar allforion cig coch

- Nodwyd bod rhai o'r DPAau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol yn annhebygol o gael eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2021 /

2022. Nodwyd bod y flwyddyn sylfaenol (2020 / 2021) yn flwyddyn eithriadol o safbwynt ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol ac y byddai ymgysylltiad cyfatebol yn 2021 / 2022 yn heriol

- Nodwyd bod y DPA sy'n ymwneud ag aelodaeth o'r cynllun PGI yn annhebygol o gael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2021 / 2022. Nodwyd bod cyfuniad o gau safleoedd a thynhau proses achredu'r cynllun PGI yn cael effaith ar nifer yr aelodau.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd i dderbyn y newidiadau arfaethedig i'r DPAau a nodwyd ar dudalennau 2 a 3 o'r ddogfen Atodiad 1.

**Y camau nesaf:** Byddai'r newidiadau'n cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth Weinidogol.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**